

Hanes Bywyd Franziska Mikus



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Menyw o'r Almaen oedd Franziska a gafodd ei herlid gan y Natsïaid – am ei bod yn fyddar.

O dan ddeddf i atal plant ag afiechydon etifeddol, cafodd dros 400,000 o bobl eu sterileiddio gan y Natsïaid rhwng 1933 a 1939 oherwydd clefydau genetig honedig. O dan y gyfraith hon, roedd pob person a gafodd ddiagnosis o sgitsoffrenia, dallineb etifeddol, neu unrhyw gyflwr arall y tybiwyd ei fod yn enetig, yn cael eu sterileiddio'n orfodol; fydden nhw ddim bellach yn gallu cael plant. Roedd Franziska Mikus yn un o fwy na 10,000 o bobl fyddar a ddioddefodd.



'Gyda chalon drom, fe gytunais i gael fy sterileiddio eilwaith. Dyma'r peth mwyaf creulon y bu'n rhaid i mi ei ddioddef erioed. Fydda i byth yn gallu anghofio hynny.'

Delwedd: Reichsgesetzblatt (Reich Law Gazette) o 25 Gorffennaf, 1933, gyda datganiad y ddeddf i atal plant ag afiechydon etifeddol

Cafodd Franziska ei geni'n fyddar ym Munich yn yr Almaen yn 1918. Roedd nam ar glyw ei thad a'i mam hefyd. Pan ddechreuodd yn yr ysgol, cafodd brawf gan feddyg. Gan nad oedd hi'n gwbl fyddar, fe'i hanfonwyd i ddosbarth ar gyfer plant trwm eu clyw, ond doedd hi ddim yn cael defnyddio iaith arwyddion. Cafodd ei drilio gan ei hathrawon, ond gan nad oedd yn gallu deall geiriau, roedd y cyfan yn ormod iddi. Llwyddodd i ddwyn perswâd ar ei mam i gael gair gyda'r prifathro, a chafodd ei symud i ddosbarth ar gyfer plant byddar.

Roedd y dosbarth hwn yn fwy addas ar gyfer Franziska. Roedd hi'n gallu canolbwyntio, dysgu'n dda a mwynhau'r ysgol. Pan oedd Franziska yn 14 oed, yn 1933, daeth y Natsïaid i rym yn yr Almaen. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, gorffennodd Franziska yn yr ysgol a dechrau ar brentisiaeth mewn lleiandy. Roedd hi'n gweithio yn y lleiandy bedwar diwrnod yr wythnos, gan ddal ati i fynd i'r ysgol unwaith yr wythnos er mwyn gwella mewn rhai pynciau.

Sterileiddio

Un diwrnod pan ddaeth adref, roedd ei mam yn eistedd wrth y bwrdd, yn crio. Arwyddodd Franziska 'beth sy'n bod?', a dangosodd ei mam lythyr iddi. Roedd yn dweud bod yn rhaid i Franziska a'i mam fynd i'r Swyddfa Iechyd i drefnu cael eu sterileiddio.

Fe benderfynon nhw brotestio a chawsant wrandawriad yn y llys. Eithriwyd mam Franziska gan y ddau farnwr, ac fe lofnododd gytundeb yn datgan na fyddai'n cael rhagor o blant. Yn anffodus, cadarnhawyd y byddai'n rhaid sterileiddio Franziska.

Yn ddiweddar, roedd Franziska wedi cyfarfod â Christian, ac roedd wedi syrthio mewn cariad ag ef. Roedd Christian wedi colli ei glyw mewn un glust pan gafodd y dwymyn goch yn blentyn. Roedden nhw eisïau cael plant un diwrnod, a phe bai hi'n cael ei sterileiddio, roedd Franziska yn ofni na fyddai Christian yn ei charu mwyach, felly doedd hi ddim eisïau mynd i'r apwyntiad. Fodd bynnag, mynnodd ei rhieni ei bod yn mynd er mwyn osgoi unrhyw helynt posibl.

Yn yr ysbyty, roedd Franziska yn anobeithio. Fe wnaeth sawl ymgais i ddianc, a cheisio lladd ei hun hyd yn oed. Cafodd Franziska ei sterileiddio yn 1936; roedd hi tua 18 oed.

Beichiogrwydd

Roedd Christian yn ei chefnogi gystal ag y gallai, ac fe wnaethon nhw ddyweddio'n fuan wedyn. Er mawr syndod, yn 1938 beichiogodd Franziska. Yn ddiweddarach, esboniodd meddyg wrthi mai dim ond wedi iddi gael ei sterileiddio roedd ei chorff wedi datblygu, ac felly roedd yn gallu geni plant.

Pan sylweddolodd mam Franziska ei bod yn feichiog, fe'i gorfododd i fynd i weld gynaeolegydd, gan ei bod yn poeni y gallai'r baban fod â nam arno oherwydd y sterileiddio.

Archwiliodd y meddyg Franziska ac yna'i llongyfarch, gan gadarnhau ei bod hi'n feichiog. Ond pan ddywedon nhw wrtho ei bod hi wedi cael ei sterileiddio, newidiodd ei wyneb. Rhoddodd y gorau i'w thrin ar unwaith, yn ymwybodol, mae'n debyg, fod ei beichiogrwydd yn anghyfreithlon.

Erthyliad

Beth amser yn ddiweddarach, derbyniodd Franziska wŷs o'r clinig gynaeoleg. Unwaith cyrhaeddodd hi yno, cymerwyd ei dillad a chafodd ei harchwilio. Pan oedd hi am wisgo drachefn, dywedodd y nyrsys wrthi fod yn rhaid iddi aros. Dadleuodd Franziska gyda hwy, ond doedd dim yn tycio. Cafodd ei chloi yn yr ysbyty am dridiau ac yna'i gorfodi i gael erthyliad.

Sterileiddio am yr eildro

Ar ôl ei herthyliad, dywedwyd wrth Franziska y byddai'n cael ei sterileiddio eilwaith, ond wnaeth hi ddim mynd i'r apwyntiad. Roedd Franziska yn ofnus, yn pryderu y byddai'r heddlu'n galw a'i gorfodi i gael ei sterileiddio, ond ddigwyddodd hynny ddim. Yn dilyn yr erthyliad, bu Franziska'n dioddef o iselder.

Yn 1941, roedd Christian a Franziska eisiau priodi. Aethant i'r swyddfa gofrestru, lle dywedwyd wrthynt fod angen prawf o'r ail sterileiddiad. Yn argyhoeddedig y byddai Hitler yn ennill y rhyfel, ac yn groes i'r graen, cytunodd Franziska'n anfoddog i gael ei sterileiddio eilwaith, a phriododd y cwpl ym mis Gorffennaf 1941.

Yn 1943, dinistriwyd eu fflat gan fomiau'r cynghreiriaid, felly penderfynodd y ddau adael Munich. Rhoddwyd cyfeiriad sawl fferm i'r ddau, lle'r oedd modd iddyn nhw weithio'n gyfnewid am do uwch eu pennau, ond fe'u gwrthodwyd gan y ffermwyr i gyd, am nad oedden nhw eisiau cynnig llety i rywun byddar.

Wrth chwilio am le i fyw yn Vohburg, pentref 70 cilomedr i'r gogledd o Munich, fe'u cyflwynwyd i bobl fyddar eraill, a oedd yn fodlon i'r cwpl aros gyda nhw. Daliodd Christian ati i weithio ym Munich, gan deithio 70 cilomedr ar ei feic bob penwythnos i ymweld â Franziska.

Ar ôl y Rhyfel

Wedi i'r rhyfel ddod i ben, roedd Christian a Franziska eisiau mynd yn ôl i Munich. Roedd yn anodd iawn i ddechrau, ond fe lwyddon nhw i ddod o hyd i le i aros gyda chymorth eu ffrindiau. Nid fflat go iawn oedd ganddyn nhw, fodd bynnag, ond atig heb ffenest – a'r unig ffordd i mewn oedd drwy ddringo ysgol.

Ar ôl ychydig, dyma nhw'n mynd at y gwasanaethau cymdeithasol i holi am fflat newydd. Er mai dim ond 24 metr sgwâr oedd y fflat o ran arwynebedd, fe wnaethon nhw aros ynddo am 22 mlynedd.

Brwydrodd Franziska am flynyddoedd i gael iawndal gan Lywodraeth Gorllewin yr Almaen, ond cymerodd tan y 1980au i Franziska dderbyn iawndal, pan dynnodd Horst Biesold sylw at sterileiddio pobl fyddar. Roedd Horst Biesold yn athro mewn ysgol ar gyfer pobl fyddar yn Bremen, yng ngogledd yr Almaen. Roedd wedi clywed am y sterileiddio gan ffrind byddar a phenderfynodd ysgrifennu ei draethawd hir, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach fel llyfr o dan y teitl Crying Hands, ar y pwnc. Wedi'i syfrdanu gan yr hyn a ddysgodd, aeth Biesold ymlaen i gyfweld â dros fil o bobl fyddar a ddioddefodd sterileiddio ac erledigaeth. Cyflwynodd ei ganfyddiadau i Senedd yr Almaen, ac yn y pen draw diwygiwyd y gyfraith, gan gydnabod bod gan ddioddefwyr byddar erledigaeth y Natsïaid yr hawl i gael iawndal.

Ar ôl y rhyfel, bu Christian yn weithgar iawn yn y gymuned fyddar, gan hyfforddi llawer o athletwyr ifanc byddar mewn athletau a phêl-droed. Gweithiodd Franziska fel ysgrifenyddes ar gyfer gwahanol gymdeithasau i'r byddar. Er i Franziska a Christian gael priodas hapus, ni wireddwyd eu dymuniad mawr i gael plant. Bu farw Christian o lewcemia yn 1986, a bu farw Franziska yn 1995.

Dysgwch fwy...

Erledigaeth pobl anabl gan y Natsïaid:
hmd.org.uk/disabledpeople

Straeon bywyd pobl gafodd eu heffeithio gan hil-laddiad:
hmd.org.uk/lifestories

hmd.org.uk
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029

 @hmd_uk
 hmd.uk
 @holocaustmemorialdaytrust

Dysgu o hil-laddiad – er mwyn dyfodol gwell